

Pris: 40c

Papur Pawb

Rhif 330

Mehefin 2007

LLWYDDIANT YN SIOE Y BATH & WEST



Mae Susan Rowlands, Hen Hafod, Ffwrnais, yn fridwraig defaid o fri. Mae ganddi ddiadell o dros 30 o ddefaid *Zwartbles* pedigri y bu'n eu magu ers saith mlynedd, a diwedd Mai fe gafodd lwyddiant mawr yn Sioe enwog y Bath & West. Daeth adref gyda phedair gwobr i gyd, dau gyntaf, un ail ac un pedwerydd. Enillodd un o'r gwobrau cyntaf am ddangos grŵp o dri, sef un oen hwrdd a dwy oen fenyw. Gosodwyd y grŵp o dri gan y beirniad ymhlith y pump gorau allan o bedwar ar hugain yn mhencampwriaeth yr holl ddosbarthiadau defaid, ac fe welir Susan yn y llun yng nghwmni'r grŵp trawiadol hwn o ŵyn a anwyd eleni.

Fel yr oedd *Papur Pawb* yn mynd i'r wasg, yr oedd Susan yn paratoi'r defaid ar gyfer Sioe Aberystwyth, ac yna byddai'n dangos yn sioe Castell Newydd Emlyn, cyn troi am y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Ond nid dangos defaid yn unig y bydd Susan yr haf hwn, ond beirniadu hefyd. Derbyniodd wahoddiad i feirniadu dosbarth y defaid *Zwartbles* yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon eleni, ac mae'n amlwg fod parch iddi ymhlith aelodau cymdeithas y brîd. Sefydlwyd Cymdeithas y Defaid *Zwartbles* yn 1995 er mwyn hyrwyddo'r ddafad hon a ddaw yn wreiddiol o'r Iseldiroedd, ac mae'r gymdeithas yn tyfu o nerth i nerth. Dywed Susan mai un o fendithion y defaid yw eu bod yn dod ag ŵyn yn rhwydd a bod yr ŵyn wedyn yn rhoi pwysau ymlaen yn gyflym. Maent yn ddefaid tawel a chyfeillgar iawn, ond nid ydynt yn or-hoff o'r glaw. Does ryfedd felly fod gan Susan shed bren ar eu cyfer gyda digon o le ynndi iddynt gysgodi! Bydd rhai o'r defaid magu a'r hyrddod yn cael eu gwerthu mewn arwerthiannau mor bell â Chaerliwelydd (Carlisle), a bydd rhai o'r ŵyn yn cael eu gwerthu i gigydd lleol. Mae sôn fod eu cig yn cynnwys llai o golestrol na chig defaid eraill, a gobaith Susan yw bydd mwy a mwy o bobl yn dod i sylweddoli gwerth cadw defaid *Zwartbles* yn y dyfodol.

MERCHED TAL-Y-BONT YN LLAWN O YSBRYD Y DDAWNS



Llongyfarchiadau i Elen Ebenezer am gipio'r wobwr gyntaf am ddawnsio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Gâr. Llwyddodd y grŵp dawnsio i ddod yn ail, ac er na chafodd Medi Evans lwyfan am ddawnsio'r gloesen, fe gafodd hwyl yn y rhagbrawf.



Afiaith
LLEWELLYN & CO. LTD
100, THE SQUARE, LONDON, W1P 2LH
020 7593 1111

Os am darsi neu fws mini
**CAMBRIAN
CABS**
Teithiau Pell ac Agos
01970 626292



DYDDIADUR

MEHEFIN

10
Bethel 10 Gweinidog (Oedfa Deulu)
Nasareth 2 Bugail
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Cymun Bendigaid
12
C.Ff.I. Nosen Gemau
17
Bethel 10 Undebol yr Ofalaeth Gerlan Y Borth
Nasareth 10 Glyn Morgan, Tregaron
Rehoboth 5 W.J. Edwards (C)
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
18
Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Taith Llanbed. Swper ac arddangosfa gan Gareth Richards (S4C)
19
C.Ff.I. Nosen Barbeciw
21
Sefydliad y Merched, Tal-y-bont. Gyrfa Chwilod
24
Bethel 10 Trefn lleol Bethel
Nasareth Trefniant Bethel
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi
30
C.Ff.I. – Cystadleuaeth Chwaraeon y Sir

GORFFENNAF

1
Bethel 6 Gweinidog (Cymundeb)
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 2 Andrew Lenny
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
3
C.Ff.I. – Cyfarfod Blynyddol
5
Sefydliad y Merched, Tal-y-bont
8
Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 10 Gordon Macdonald
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun Bendigaid
15
Bethel 2 Andrew Lenny
Nasareth 2 Andrew Lenny (Bethel)
Rehoboth 10 Beti Griffiths

Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
GORFFENNAF(parh.)
19
Sefydliad y Merched, Tal-y-bont
22
Bethel 2 Uno yn Nasareth
Nasareth 2 R.H. Lewis
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi
29
Bethel 6 Gweinidog (Cymundeb)
Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 10
Llandre

AWST

5
Bethel 10 Miss Beti Griffiths
Nasareth
Rehoboth 5 Terry Edwards
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun Bendigaid
12
Bethel 2 Mr Hugh Roderick
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Cymun Bendigaid
19
Bethel 2 Mr Arwyn Pearce
Nasareth
Rehoboth R.W. Jones (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
26
Bethel 2 Parch Terry Edwards
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi

MEDI

2
Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 2 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun Bendigaid

CEFYNGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYMAL A CHAWI GERDDI
TORRI PORFA A SETYML GOSOD DECHING A SLABAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01678 820068
Bow Street Strydol: 07906 105619

A DAVIES
TRYDANOL

Ty Maben Isaf
Derwlas
MACHYNLETTI
Rwydyl Sy20 6SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781233

EGLWYS ST. PEDR, ELERCH

GWIN, CAWS A CHÂN

(awyr agored - tywydd yn caniatáu)

Adloniant

Côr Cantre'r Gwaelod

NOS WENER 29 MEHEFIN 2007

7.00 pm. TOCYN: £5.00

Plant: £1.00

BARBECIWIW / RHOSTIO MOCHYN

NOSON EIDALEG YNG NGHARTREF TREGERDDAN
NOS WENER, 15 MEHEFIN

AM 6.30 YR HWYR.

MYNEDIAD: OEDOLION £5.00
YN CYNNWYS PWDIN A GWYDRAID O WIN.

PLANT AM DDIM.

STONDINAU A RAFFLA GWOBR AM Y WISG ORAU.

Y rhifyn hwn yw'r olaf yn awr tan fis Medi. Os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr ddiddordeb mewn cynorthwyo'r tîm golygyddol i gynhyrchu'r papur bro, neu mewn cyflwyno syniadau newydd, yna cysylltwch â Geraint Evans ar 832 473. Bydd croeso i bob cyfrannwr a gwirfoddolwr.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth, a dyluniwyd gan Iolo. Ni chyhoeddir rhifynnau o'r papur ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Golygyddion rhifyn mis Medi fydd **Eleri a Gwilym, Pengwern (832231; gehpengwern@yahoo.co.uk).** Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener **1 Medi** a bydd y papur ar werth yn y siopau ddydd Gwener **8 Medi.**



GWELLHAD BUAN

Dymunir gwellhad buan i Colin Sutcliffe, Stryd y Capel, Taliesin, sydd wedi treulio cyfnod yn ysbytu Bronglais.

CODWM CAS

Da clywed fod Julian Thomas bellach yn gwella ar ôl ei godwm cas wrth sglefrfyddio. Deallwn na fydd ar frys i fenthyg *skateboard* Steffan eto!

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn gyda theulu Tynant ar farwolaeth modryb i Marion, sef Mrs Watkin o Lanfarian. Roedd Mrs Watkin yn perthyn i deulu Llwyn-glas hefyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Nia, Carl, Ffion a Siwan, Maesyderi, Tal-y-bont, ar golli ewythr yn ddiweddar, sef Wil Oliver o Aberystwyth.

Yr ydym hefyd yn cydymdeimlo gyda Ronald, Dennis, Gethin a Gerald Roberts, eu teuluoedd a'u cysylltiadau ar golli chwaer, Muriel Smith o Daliesin. Gweler y deyrnged iddi ar dudalen 8.

DATHLU'R DEUNAW

Llongyfarchiadau mawr i Gareth Jenkins, Ynyseidiol, a Rhys Richards, Clap-y-Cripiâu, ar ddathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw yn ddiweddar. Hefyd i Yvette Evans, Bryn Eleri, ar ddathlu ei phen-blwydd hithau yn ddeunaw.

GENEDIGAETHAU

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Mai a Iestyn, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hail blentyn, sef Miriam Llwyd, chwaer fach i Glain.

Da hefyd oedd clywed am enedigaeth wyres fach newydd i Mr a Mrs Jack Evans Llwynysguborwen, sef Mirain Wyn, merch i Deulwyn a'i wraig Nia ym Mhenparcau. Mae Mirain Wyn yn orwyres i Mrs Jenkins, Tegfan, Tal-y-bont.

Llongyfarchiadau i deulu Hillside, Tal-y-bont, ar enedigaeth efeilliaid, dwy ferch fach.

Mae Mrs a Mrs Jeff Wells 2 Birkinhead St. yn dathlu genedigaeth eu hwyr bach, sef mab i Alasdair a'i wraig yng Nghanada, a brawd bach i Madeleine.

CYRRAEDD Y PEDWAR UGAIN

Pen-blwydd hapus iawn i Glyn Harker, 4 Maesyderi, Tal-y-bont, ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Ar 21 Ebrill 2007 yn Eglwys y Santes Fair tu allan i'r muriau, yn ninas Caer, priodwyd Shelley Nia Murray Francis, unig ferch Mr & Mrs Richard Francis, Plas Cefngwyn, Bont-goch, gynt o Pantafallen, Tregaron, â Thomas Owen Rees, unig fab Mr & Mrs Adrian Rees, Threapwood, ger Wrecsam. Bydd y pâr priod yn cartrefu yn Saughall, Swydd Caer. Mae Shelley yn gweithio i EMP Systems Cyf. fel rheolwr cyfrifon, ac mae Tom yn gyfrifydd siartredig gyda chwmni KPMG yn Lerpwl. Treuliwyd y mis mêl ar ynys Mauritius. Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.



Dydd Sadwrn 2il o Fehefin cynhaliwyd priodas Rhian Iolo, merch Ellen a Iolo, Garreg Wen, Tal-y-bont a Robbie Brewster o Ben-y-bont-ar-Ogwr, yng Ngwesty'r Cliff, Gwbart, ger Aberteifi. Mae'r cwpwl wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd. Mae Rhian yn gwneud gwaith cymdeithasol yn y Cymoedd a Robbie ym gweithio ym myd teledu. Treuliwyd y mis mêl yn yr Eidal. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

PRIODAS RUDDDEM

Llongyfarchiadau i Gwen ac Eurfin Williams, Gwarcwm Isaf, Taliesin, ar ddathlu eu priodas ruddem ddechrau Mehefin.

CYMORTH CRISTNOGOL TALIESIN

Yn ôl yr arfer, bu casgliad o ddrws i ddrws tuag at Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn gan Olwen Rowlands, Sue Williams a Carys Briddon. Diolch i bawb a gyfrannodd, ac eleni codwyd y swm o £186.66. Owen Jenkins fu yng ngofal y trefniadau ariannol.

CROESO I'N PLITH

Dymunwn groesawu Peter a Ruth Dennis i'w cartref newydd ym Maesyfelin. Mae Peter yn gweithio yn Adran Gwyddorau Gwledig y Brifysgol ac mae Ruth newydd ei phenodi yn gynorthwywraig feithrin yn Ysgol Tal-y-bont. Mae ganddynt dri o fechgyn, sef Gareth, Ieuan a Bryn. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn Nhal-y-bont.

ARIAN YR ARCHESGOB

Mae Clwb ar ôl Ysgol Tal-y-bont yn dathlu ar ôl derbyn arian o Gronfa Archesgob Cymru ar gyfer plant. Llwyddwyd i dderbyn swm anhrydeddus o £1937.72, a fydd yn cael ei wario ar brynu offer bwyta'n iach a chwaraeon. Y mae arweinyddion y clwb, Debbie a Karen, yn falch dros ben o glywed i'w cais fod yn llwyddiannus.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



C.Ff.I Tal-y-bont



Dyma Cei Cennin, Guto Grawnwin, Morris y Foronen a Mei y Mefus, a redodd nerth eu traed i ennill ras 'It's a Knock Out'.



Einion, Rhys a Gareth yn y gystadleuaeth Campwyr Campus. Llongyfarchiadau i Einion ar gael y marc uchaf am potsio wy!

Bu amryw o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau Clwb Tal-y-bont lawr ar fferm Gafryw, Mydroilyn ar ddydd Sadwrn, 26 o Fai ar gyfer y Rali flynyddol. Y thema ar gyfer y cystadlaethau eleni oedd 'Iechyd Da'. Bu cystadlu brwd rhwng 20 clwb yn ystod y dydd. Ar ddiwedd yr holl cystadlu dyfarnwyd Pontsian yn fuddugol a Thal-y-bont yn cyrraedd y 5ed safle.

Dyma rai o'r canlyniadau:

Cneifio

Dan 21 Elgan Evans 1af
Dan 26 Rhydian Evans 1af
Tim Rhydian ac Elgan Evans 1af

It's a Knock Out

2il: Siôn Glyn Saunders-Jones, Geraint Jenkins, Rhys Richards a Gareth Jenkins

Barnu Gwartheg Limousin

Dan 21 Aled Llŷr 3ydd
Dan 16 Dewi Jenkins 4ydd
Tim Eifion Jenkins, Aled Llŷr a Dewi Jenkins

Pecyn Addysg Iechyd Da

4ydd: Anwen Hughes, Bethan Roberts a Dewi Edwards

Gwisgo Arweinydd

4ydd: Richard John Jenkins a Lowri Morgan

Campwyr Campus

4ydd: Gareth Jenkins, Rhys Richards ac Einion Williams

Dawnsio

4ydd: Danielle Price, Caryl Williams, Gwen Davies, Elen Thomas, Huw Edwards, Llŷr James, Rhydian Evans a Garmon Nutting

Gosod Blodau

5ed: Caryl Jenkins

Braf oedd gweld Caryl Jenkins ar y llwyfan fel un o forwynion y sir am eleni – pob hwyl iddi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Byddwn yn cynnal ein Cyfarfod Blynyddol eleni ar nos Fawrth, 3 Gorffennaf, am 8.00 yh. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

CYNGOR CYMDEITHAS CEULANAMAESMAWR

Cynhaliwyd y Cyngor Blynyddol nos Lun 21ain Mai gyda'r Cadeirydd, Cyng. Ellen ap Gwynn yn estyn ei chroeso cynnes i saith o'i chyd aelodau. Darllenwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2006, cytunwyd eu bod yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

Fel arfer gorchwyl cyntaf cyfarfod blynyddol yw penodi Cadeirydd am y flwyddyn. Pasiwyd yn unfrydol mai'r is-gadeirydd presennol fyddai'n llenwi'r swydd. Derbyniwyd hynny gan y Cyng. Glenys Edwards, gyda'r Cyng. Nest Jenkins yn cael ei hethol yn is-gadeirydd. Penodwyd aelodau eraill i wasanaethu ar is-bwyllgorau'r Cyngor.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad am sefyllfa ariannol y Cyngor i ddiwedd Mawrth. Cyfanswm derbyniadau'n £13,700 gyda thaliadau am gostau mynwent, gweinyddol, yswiriant, cymorthdaliadau a chynnal a chadw eiddo'r Cyngor yn £10,600. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol gan y Cyngorwyr.

Wrth ddod â'r Cyfarfod blynyddol i ben diolchodd y Cyng. Ellen ap Gwynn i'w chyd gynghorwyr a'r clerch am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei thymor yn y swydd gan gyfeirio at amryw o faterion a digwyddiadau o ddiddordeb a fynodd sylw yn ystod y flwyddyn. Wrth ymadael gwahoddodd y Cyng. Glenys Edwards i'r gadair ac i ddechrau ar ei dyletswyddau fel Cadeirydd. Y gorchwyl cyntaf iddi oedd arwyddo'r ffurflen o ddatganiad derbyn swydd o Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn.


Cytunwyd bod cofnodion y Cyngor blaenorol yn ddatganiad cywir ohonynt ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

Trafodwyd apêl oddi wrth Heddlu Dyfed Powys am gymhorthdal tuag at sefydlu cronfa i barhau'r cynllun Fan Bobi yn y sir. Penderfynwyd gohirio ymateb hyd ddiwedd y flwyddyn. Deallwyd bod y gwasanaeth teliffon yng nghwm Ceulan wedi gwella ac yn hollol dderbyniol erbyn hyn. Darllenwyd llythyr yn cwyno am gyflwr difrifol o wael i'r ffordd ddiddosbarth rhwng Pantcarw a Winllan. Cysylltir ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i ofyn iddynt ymgymryd â gwaith cynnal a chadw buan arni.

Cyflwynwyd adroddiad am ddogfennau archwilio am y flwyddyn i gwmni BDO Stoy Hayward a'r angen i gytuno eu bod yn dderbyniol gan y Cyngor. Wedi'u derbyn arwyddwyd hwy gan y Cadeirydd a'r Clerc. Gosodir rhybuddion ar hysbysfyrdau'r gymuned i fynegi y bydd llyfrau'r Cyngor ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r gymuned o 25ain Mehefin ymlaen am bythefnos.

Y mae Adran Gynllunio'r Cyngor Sir wedi caniatáu codi mesurydd gwynt ar Esgair Goch am gyfnod o ddwy flynedd. Ni fynegwyd gwrthwynebiad i'r cais i osod maen gyda phlât gwybodaeth arno ger Bedd Taliesin.

Mynegwyd sylwadau am gynnydd mewn traffig ar y ffordd rhwng Pencwm a Thal-y-bont yn ogystal â'r cynnydd mewn yr arfer o farchogaeth ceffylau arni. Tynnir sylw'r Adran Priffyrdd at hyn i weld a fydd yn bosibl iddynt osod rhybuddion i dynnu sylw at yr angen i fod yn ofalus pan yn teithio ar y ffordd yma.



Cynlluniau ar gyfer sianel deledu Gymraeg i blant

Ar 14 Mai 2007 lansiodd Awdurdod S4C, y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio S4C, ymgynghoriad cyhoeddus i gynlluniau i gyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd yn Gymraeg i blant.

Fe fydd yr ymgynghoriad deg wythnos yn gofyn barn y cyhoedd a rhan-ddeiliaid allweddol am y gwasanaeth newydd arfaethedig, a anelir at blant i fyny at 16 Oed. Bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon gymeradwyo'r gwasanaeth newydd.

Meddai John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C: "Mae gwyllo pobl ifanc yn mudo o'r prif sianeli teledu i'r sianeli arbenigol hynny sy'n darparu rhaglenni i bobl ifanc yn unig. Gyda theledu ar fin mentro i'r oes ddigidol-yn-unig, rhaid inni sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn cael yr un cyfle â phlant a phobl ifanc mewn manau eraill. Mae'n hollbwysig bod gwasanaeth Cymraeg cyfatebol yn cael ei ddarparu."

Ychwanegodd, "Mae cenhedlaeth o blant a phobl ifanc sydd yn angerddol am eu diwylliant hefyd yn rhan o genhedlaeth ehangach sydd â dealltwriaeth o'r cyfryngau ac â disgwyliadau uchel ynghylch pryd a sut y maent am ddefnyddio cyfryngau. Fe fyddem yn colli cyfle os na allwn ateb eu disgwyliadau nhw, gan wadu iddynt y dewis o ddefnyddio'r cyfryngau yn yr iaith Gymraeg."

"Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn holi barn y rhai sydd â diddordeb yn y maes hwn



Cyflwynwyr Uned 5

- yn benodol, athrawon, rhieni, elusennau plant, mudiadau ieuencid, gwleidyddion a'r plant eu hunain. Rydym am sicrhau bod ein gwasanaeth yn ateb anghenion ein pobl ifanc."

Byddai S4C yn ariannu'r gwasanaeth o'i chyllid presennol. Byddai cyllid ychwanegol o ffynonellau masnachol S4C yn helpu i ariannu'r costau cychwynnol a thechnegol. Mae S4C yn un o brif brynwyr rhaglenni gwreiddiol i blant yn y DU gyda chyllideb o £10.9 miliwn i wario ar gomisiynu o'r sector annibynnol yn 2007.

Argymhellir y bydd y gwasanaeth ar gael yng Nghymru ar deledu lloeren ddigidol, cebl digidol a daearol digidol. Fe fydd hefyd ar gael i wylwyr yn rhannau eraill y DU ar loeren ddigidol a band llydan.

Ewch i'r wefan s4c.co.uk/ plant i gael manylion ynghylch sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, sy'n dod i ben ddydd Gwener, 20 Gorffennaf.

CYFARFOD CYSTADLEUOL REHOBOTH 2007

Dyma ddwy eitem fuddugol o eiddo Carys Briddon yn y cyfarfod cystadleuol a gynhaliwyd eleni.

Gorffen Limrig

Mae rhew yr Antartig yn toddi,
Dyffrynnoedd a chymoedd yn boddi,
Y rheswm, medd rhai,
Mai dyn sydd ar fai
A'i wyrion yw'r rhai mae'n eu cosbi.

Brawddeg o'r gair 'GWEINIDOG'

Gelwir Wyn eleni i Nasareth i draethu oedfaon grymus.

GIG MAWR BONT 2007

MEHEFIN 29-30

PARFLWYD BONT FORTYHYDEFFRINDIG

SARWEN 12PM - 1AM

BRYN FÔN

TEC-YNIFAN, BOD DELYD A'R EBILLION, FFLOR DANFYDD
RELIW TAN LLEN, EDDA, LOWRI EVANS, MARI HUGH - HWY

GWENER 8PM - 12AM

FALDIO LUXEMBOURG

EGORRI DINDIG, COWBOY BHOSS
JUTTYNIG, BEN JENKINS

TISEYNIADAU

ORCHYSTRYDDI - GŴP IWL
RHOFFI GILLESPIE
SŴP FETTEL
PULCHRAN - MARIOL, BOLL
L'YMBREUSAN I'R CYFFWR
L'YMBREUSAN I'R CYFFWR

GWENER - 8.5 CYWBER LLŴG 8.55 (THORO)
SARWEN - 8.10 (Y WALLEN LLŴG) 8.2 (TUDUR)

01970 832 278 WWW.PRELLYHUNNIDY.CO.UK

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Y plant a fu'n cystadlu yng ngystadleuaeth traws-gwlad genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau i Catrin, Gwenno ac Alwenna am ddod yn ail fel tîm i ferched blwyddyn 5 ym mhencampwriaethau cenedlaethol yr Urdd ar Gaeau Blaendolau yn ystod mis Mai. Da iawn chi ferched.



Pob hwyl i dîm hoci'r ysgol a fydd yn cynrychioli Cylch Aberystwyth yn y rownd derfynol yn y Drenwydd.



Llongyfarchiadau i Mrs Rose Jones ar enedigaeth Steffan Rhun ar y 18fed o Fai.

Traws-gwlad

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau traws-gwlad cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd ar gaeau Blaendolau. Llongyfarchiadau arbennig i Alwenna, Catrin a Gwenno am ddod yn ail fel tîm yn y gystadleuaeth i ferched blwyddyn 5.

Ynyslas

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ar daith i warchodfa natur y Cyngor Cefn Gwlad yn Ynyslas.

Gweithdy pres

Cafodd disgyblion yr ysgol gyfle arbennig i fynychu gweithdy pres yn ysgol Plascrug.

Ymweliad â Gwarchodfa Ynys-hir



Ar ddydd Mercher, Mai 23, aethom i Ynys-hir. Fe welsom ni ditw-tomos-las, robin goch a gwennol. Roedd anifeiliaid eraill yna fel y wiwer lwyd. Aethom i weld beth oedd yn y pwll du' r a gwelsom ni genau goeg, chwilen y du' r a phry copyn y du' r. Wedyn aethom i chwarae gêm cadwyn fwyd. Aethom i gerdded yn dawel i weld yr adar. Cerddom ni nôl i'r RSPB i gael picnic. Ar ôl cinio aethom i ddal bwystfilod y gwair. Daliodd Ffion a Tara bry copyn mawr! Yna cerddom ni lawr i'r guddfau i weld adar, gwelais greyr glas a hedfanodd gwennol trwy'r ffenestr. Cyn mynd yn ôl i'r ysgol chwaraeom ni gêm arall. Roedd y plant oedd yn gudyll yn bwyta plant oedd yn ditw-tomos-las a'r plant oedd yn ditw-tomos-las yn bwyta'r plant oedd yn lindys. Cawson hwyl fawr.

Diolch i Mrs Jenkins a Miss Jones am drefnu'r trip.

Tara Howard a Ffion Nelmes.

**Gwyliau haf hapus a diogel
i'n holl ddarllenwyr**



O'r Cynulliad – Elin Jones AC

Yn gyntaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i drigolion Ceredigion am fy nghefnogi yn etholiadau'r Cynulliad ddechrau mis Mai. Mae wedi bod yn fraith i gael cynrychioli pobl Ceredigion yn y Cynulliad dros yr wyth mlynedd diwethaf ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith caled am y pedair blynedd nesaf. Wedi siarad â chymaint o bobl yn ystod yr ymgyrch ym mis Ebrill, mae'n amlwg bod

y mwyafrif o drigolion Ceredigion yn rhannu fy awydd i gael mwy o fuddsoddiad mewn tai a swyddi yng nghefn gwlad ar gyfer ein pobl ifanc. Maent hefyd yn gwrthwynebu'n chwyrn y bygythiad i'n hysbytai cymunedol a'r bwriad i israddio Ysbyty Bronglais. Byddaf nawr yn parhau i godi'r materion hyn yn y Cynulliad.

Erbyn i chi ddarllen y golofn hon, bydd Rhodri Morgan wedi cael ei ailethol fel Prif Weinidog y Cynulliad yn dilyn cyfnod ansicr iawn ym Mae Caerdydd. Fel nifer o Aelodau Cynulliad eraill, roeddwn i'n cefnogi'r dewis amgen sef Llywodraeth yn cael ei harwain gan Blaid Cymru. Byddai Llywodraeth o'r fath wedi rhoi terfyn i gynllun y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i israddio ein hysbytai. Fodd bynnag, mae penderfyniad dirybudd y Democratiaid Rhyddfrydol i newid eu meddyliau a pheidio â chefnogi 'clymblaid yr enfys' yn golygu na fydd hyn yn bosib ac mae'n debyg ein bod yn wynebu pedair blynedd arall o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad.

Mae dyfodol ein swyddfeydd post yng Ngheredigion yn parhau i fy mhoeni – yn enwedig y bwriad i adleoli swyddfa bost Llambod ar gyrion y dref. Bydd symud y gangen o'i lleoliad presennol yng nghanol y dref yn cael effaith fawr ar fusnesau eraill y dref, ac fe fydd hi'n anoddach i'r henoed gyrraedd y lleoliad newydd. Yn gynharach y mis hwn fe ddaeth y datganiad bod Llywodraeth Lafur San Steffan yn bwriadu cau 2,500 o swyddfeydd post ym Mhrydain erbyn 2009. Bydd hyn yn cael effaith fawr ar ein cymunedau – yn enwedig yng nghefn gwlad ble mae incwm swyddfeydd post yn llai o ganlyniad i'r boblogaeth is. Mae'n bwysig ein bod felly'n cefnogi ein swyddfeydd post lleol ac yn sicrhau eu bod yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau posib i'r gymuned.

BRWS A PHAENT A BYSEDD!



Cafodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Tal-y-bont gyfle i fynychu gweithdy arlunio yng nghwmni'r artist Rolf Harris yn ystod wythnos

olaf mis Mai. Yr oedd Rolf, sy'n 77 oed, ar ymweliad ag Aberystwyth fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y Llyfrgell Genedlaethol. Yr oedd ei daid, George

GWYLLIAU
Seren Arian 
13 Sgwar y Castell, Caernarfon LL55 2NF

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL, YR WYDDGRUG
Sul Sed Awst – Sathwr 13eg Awst
Gwesty De Vere, Parc Deaf Sant – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brcwast - £499

Lun Sed Awst – Gwener 10fed Awst
Gwesty'r Holiday Inn, Gortwin Coer – 5 Diwrnod
4 Noson, Cinio Gwely a Brcwast - £329

Sul Sed Awst – Sathwr 13eg Awst
Gwesty Moreton Park – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brcwast - £449

Sul Sed Awst – Sathwr 13eg Awst
Gwesty Ramada, Wrexham
6 Noson, Cinio Gwely a Brcwast - £439

TEITHIAU YN Y D.U.
20 Ebrill – Bideford a *Sogled Dyrhaist – 5 Diwrnod – £159
20 Ebrill – Regency Brighton – 5 Diwrnod – £199
20ed Ebrill – Torquay – 5 Diwrnod – £149
20ed Ebrill – Eastbourne ac Arfordir Sussex – 5 Diwrnod – £219
18eg Ebrill – Yn gyd ar lan y Llynedd – 5 Diwrnod – £199
18eg Ebrill – Yn Wyrth – 5 Diwrnod – £229
18eg Ebrill – Norwich a'r Norfolk Broads – 5 Diwrnod – £219
18eg Ebrill – Stirling a'r Trossachs – 5 Diwrnod – £179
18eg Ebrill – De Dwyfain Uwyr – 5 Diwrnod – £179
30eg Ebrill – Antur yn yr Ucheldir – 5 Diwrnod – £259
7fed Mai – Bournemouth – 5 Diwrnod – £209
7fed Mai – Rhyfediadau Calet a Ffalec – 5 Diwrnod – £269
7fed Mai – Olan, Moll ac Iona (hellgymrysoel) – 5 Diwrnod – £299

GWYLLIAU YN EWROP
1af Mawrth – Gŵyl Ddaul yn Eurodheny – 4 Diwrnod – o £249
20ain Mawrth – Moethuswydd yn Berlin – 6 Diwrnod – £299
21ain Mai – Llyn Garda a Fenis – 10 Diwrnod – £499
3ydd Mch – Nery, Gwlad Haal y Nos – 13 Diwrnod – £999
21ain Mch – Antur Mynyddoedd y Tyrol – 10 Diwrnod – £499
1af Gorff – Andara – 10 Diwrnod – £469
18fed Gorff – Siolecia a Llyn Bledd – 11 Diwrnod – £599
5ed Awst – Croydra Gwlad Ffrwy – 11 Diwrnod – £675
18fed Awst – Prague, Budapest a Ffena – 11 Diwrnod – £699
1af Medi – Tair Fawr Ewrop – 14 Diwrnod – £999
8fed Medi – Costa Verde Portiwgal – 13 Diwrnod – £659
12fed Medi – Awstria, Cestyll a Chyngherddes – 11 Diwrnod – £749
18eg Medi – Gwledydd y Baltig a St Petersburg – 12 Diwrnod – £1099
24ain Medi – Corsica a Sardinia – 13 Diwrnod – £999

01286 672333
www.silverstarholidays.com

Frederick Harris o Ferthyr Tudful, hefyd yn artist, ac mae ei waith yn cael ei arddangos yn y Llyfrgell ar hyn o bryd.

Yn ôl y plant a dreuliodd awr yng nghwmni Rolf, yr oedd yn ddyn hynaws a gwylaidd iawn. Bu Lois Jones mor ffodus â chael ei phortread wedi ei dynnu gan y dyn ei hun, ac fe wnaeth hynny gan ddefnyddio paent ar ei fysedd. 'Yr oedd yn ddyn neis iawn,' meddai Lois. Fe fydd ganddi rywbeth gwerth ei gadw i gofio am ymweliad Rolf Harris ag Aberystwyth.



Lois Jones gyda'i phortread pen bys gan Rolf.

ARTHUR MORRIS, ELERCH HOUSE, BONT-GOCH A'I DEULU

Bu farw Private 18043 Arthur Morris, Elerch House, Bont-goch yn 26 oed ar 26 Awst 1918 wrth wasanaethu gyda Bataliwn 14 y Ffiwsiliwyr Cymreig yn y Rhyfel Mawr. Fe'i claddwyd ym mynwent Caterpillar Valley, Longueval, yn ardal y Somme, gogledd Ffrainc.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Parchg Ddr David H. Williams, Aberystwyth am ddwyn fy sylw at y mater hwn, ac am dynnu llun y bedd pan fu'n ymweld â'r ardal yn ddiweddar. Gan fy mod y byw drws nesaf i *Elerch House* (*Hafod Elerch* erbyn hyn), roeddwn yn awyddus i geisio olrhain cymaint o hanes y milwr a'i deulu ag y medrwn. Hoffwn rannu'r hyn a ddarganfyddais hyd yma gyda darllenwyr *Papur Pawb*, ond byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol, yn arbennig gan ddisgynyddion y teulu os ydynt yn parhau i fyw yn yr ardal.



Roedd Arthur Morris yn fab i William Edwin Morris a'i wraig Elizabeth. Ar 27 Gorffennaf 1888, priodwyd y ddau yn Eglwys St. Pedr, Elerch. Nodwyd fod William yn ŵr dibriod, 26 oed, yn fwynwr ac yn enedigol o Sir Amwythig. Ar y pryd roedd William yn gweithio fel labrwr ar fferm Llety Ifan-hen ac roedd ei briod Elizabeth, merch leol, yn wraig weddw ac yn forwyn ym Mhant-y-ffin. Ei gŵr cyntaf oedd John Jones, Rhyd-yr-onnen, mwynwr, a phriodwyd y ddau yn Eglwys Elerch ar 25 Tachwedd 1878. Rhieni Elizabeth oedd David Davies, mwynwr, Pant-y-

celyn a'i briod Elizabeth. Gellir gweld olion Pant-y-ffin o hyd ar fanc Bwlch Rosser, ac mae adfeilion tyddynnod Rhyd-yr-onnen a Phant-y-celyn i'w gweld yn sefyll ar ymyl y ffordd sy'n rhedeg rhwng Cwmere a Moelgolomen.

Ond roedd y teulu Morris wedi gadael Sir Amwythig ers tro, a cheir William yn gweithio fel gwas yn fferm Fron-goch, Tre'r ddôl yn 1881, tra oedd ei dad yn gweithredu fel *gamekeeper* ac yn byw yng Nghaer berllan, ger Ynys-hir, ac yn briod â merch leol o Dal-y-bont. Roedd Edwin yn enedigol o Bitterley, ger Llwydlo (*Ludlow*).

Mae cyfrifiad 1891 yn dangos William Edwin Morris a'i deulu yn byw ym mhentref Bont-goch, heb nodi'r union dŷ. Cofnodir y plant canlynol: Elizabeth Jones (12 oed) a John D. Jones (10 oed), plant y briodas gyntaf, a Mary E. Morris (2 oed) a William E. Morris (1 oed), sef plant yr ail briodas. Mae cofnodion Eglwys Elerch yn gymorth i leoli'r union dŷ gan i'w trydydd plentyn, George, gael ei fedyddio ar 31 Gorffennaf 1898, pan nodir y cyfeiriad fel Y Felin, a gwaith y tad fel 'Mwynwr & Melinwr'. Erbyn 7 Ebrill 1901, pan fedyddiwyd mab arall o'r enw Llewellyn, roedd y teulu wedi ymgartrefu yn Nhanllidiart, Bont-goch. Erbyn cyfrifiad 1901 roedd plant y briodas gyntaf wedi gadael y nyth, a nodir y canlynol yn unig yn y cartref: William Edwin (bellach yn 11 oed), Arthur (9 oed), Thomas J. (6 oed), George (2 oed), a Llewellyn (1 oed).

Ni cheir sôn am y tad William Edwin Morris yng nghyfrifiad 1901, gan ei fod wedi gadael Bont-goch am dde Cymru i chwilio am waith yn y pyllau glo, ac fe'i ceir yn byw fel *boarder* yn 65, East Road, Ferndale yng nghwm Rhondda. Arhosodd ei wraig a'i blant yn Nhanllidiart, a nodir Elizabeth ar gyfrifiad y flwyddyn honno fel '*wife of a collier*'. Ymhen amser byddai tri o'r meibion yn dilyn trywydd y tad, ac yn ymgartrefu yn 43, High Street, Abertridwr, ger Senghennydd yng Nghwm Rhymni, tra byddai hithau a'r plant iau yn symud can llath lawr y ffordd i *Elerch House*.



Yn Senghennydd ar 14 Hydref 1913 cafwyd un o'r damweiniau diwydiannol mwyaf erchyll a welodd y byd erioed pan laddwyd 439 o lowyr mewn tanchwa, ac yn eu plith roedd nifer o fechgyn Sir Aberteifi yn cynnwys dau o feibion William Edwin Morris, sef William Edwin a Thomas (Tom) James – y naill yn 23 oed a'r llall yn 19. Ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw, roedd dros 950 o lowyr yn y pwll, ac mae'n bosibl bod William Edwin a'i fab Arthur ymhlith y rhai ffodus a ddihangodd yn fyw.

Ymhen llai na blwyddyn gwelwyd dechreuad ar frwydrau gwaedlyd y Rhyfel Mawr, ac yn gynnar yn y Rhyfel enlistiodd Arthur Morris ar gyfer gwasanaeth milwrol. Mae'n siŵr ei fod yn meddwl y byddai mynd i ryfel yn rhyw fath o ddihangfa o'r pwll glo a'i beryglon ac yntau newydd golli dau o'i frodyr yn namwain fawr pwll yr *Universal*. Aeth ymhen amser i Ffrainc gyda dymuniadau da Eglwys Wesleaid Senghennydd a gyflwynodd iddo Feibl a llyfr emynau i'w gysuro ar ei daith. Ar ôl treulio dwy flynedd yn ffosydd Ffrainc cafodd anafiadau drwg. Caniatwyd iddo ddychwelyd at ei deulu yn Bont-goch i gryfhau, a threfnwyd cyfarfod croeso anrhydeddus iddo gan yr ardalwyr. Ar ôl gwella'n ddigonol treuliodd beth amser gyda'r fyddin yn Iwerddon yn 1916, blwyddyn terfysg Gwrthryfel y Pasg, cyn dychwelyd eilwaith i Ffrainc ym Mehefin 1917. Ac yno y bu farw ar faes y gad ar 26 Awst 1918, gan adael ei rieni i alaru ar ôl colli trydydd plentyn o fewn cyfnod o lai na phum mlynedd.

Parhaodd y rhieni i fyw yn *Elerch House* hyd at o leiaf 1920, ond nid wyf yn sicr beth a ddaeth ohonynt nac ymhle y'u claddwyd. Nid yw Arthur Morris wedi ei goffáu ar gofeb Tal-y-bont, ond ceir ei enw ar gofeb sydd bellach yn rhan o ganolfan gymunedol Nazareth, Abertridwr.

Richard E. Huws

TEYRNGED I MRS MURIEL JANE SMITH

Ganwyd Muriel yn Nhaliesin, yr wythfed plentyn o ddeuddeg o blant i'r diweddar Mr a Mrs William Roberts, Brodawel. Yr oedd yn fam i Mellony a Darren, ac yn fam-gu i Holly a Sam. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd yn y pentref.

Bu Muriel yn gweithio yn Aberystwyth am rai blynyddoedd, ond treuliodd ei blynyddoedd olaf, yn gofalu am y plant awr ginio yn ysgol Llangynfelyn. Yr oedd yn aelod o Sefydliad y Merched Taliesin, Merched y Wawr Tal-y-bont, a Chymdeithas y Chwirydd, Soar a Rehoboth, tra medrai fynd o gwmpas. Ond yn anffodus yn y blynyddoedd diwethaf torrodd ei iechyd a bu'n gaeth i'r tŷ. Ei diddordeb yn ystod yr cyfnod diweddar oedd gwrando ar y radio, yn enwedig 'Jonsie' yn y bore, a hoffai wrando ar raglen 'John ac Alun' ar nos Sul.

O golli Muriel, dyma golli eto un o hen deuluoedd y pentref. Cydymdeimlwn â Mellony a Darren a'r teulu i gyd.

DIWEDD CYMDEITHAS HENOED



Trip olaf Cymdeithas Henoed Tal-y-bont a'r cylch

Clywyd y mis hwn fod Cymdeithas Henoed Tal-y-bont a'r Cylch yn dirwyn i ben ar ôl dros 50 o flynyddoedd o fodolaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor yn ddiweddar fod y swyddogion yn ymddiswyddo am nad oeddent yn teimlo fod gan henoed y cylch ddigon o ddiddordeb mewn parhau â'r Gymdeithas. Cyhoeddwyd apêl am wirfoddolwyr yn rhifyn y mis diwethaf o *Bapur Pawb*, ond gan na chafwyd unrhyw ymateb penderfynwyd nad oedd dim dewis ond dirwyn y gymdeithas i ben. Bu raid i Mrs Valma Jones gario ymlaen fel Cadeirydd am na all yr un sefydliad barhau heb Gadeirydd. Gan fod rhywfaint o arian ar ôl yn y coffrau, penderfynodd yr aelodau y byddent yn gwario hwnnw ar drefnu trip cinio i westy Tynycornel, Tal-y-llyn, ar 30fed o Fai. Dymuna'r aelodau ddiolch i'r Cadeirydd ac i Lynn Hammonds am drefnu. Er bod pawb yn teimlo'n chwith mai hwnnw fyddai trip olaf y Gymdeithas, yr oedd pawb wedi mwynhau.

SUL I'W GOFIO



Ifan Gruffydd yn annerch y gynulleidfa a baner dosbarth Mair Nutting yn y cefndir.

Ym Methel Tal-y-bont y cynhaliwyd Cymanfa Ganu Eglwysi Gogledd Ceredigion eleni, a hynny ar drothwy wythnos Cymorth Cristnogol. Cynhaliwyd gwasanaeth plant hyfryd yn y bore pryd yr anerchwyd gan Ifan Gruffydd Tregaron. Cafwyd neges amserol ganddo yn ei ddull unigryw ei hun. Aeth tyrfa dda wedyn i'r Neuadd Goffa am baned a chacen. Addurnwyd y sêd fawr yn y capel â baner liwgar drawiadol a geiriau Gweddi'r Arglwydd wedi eu printio arni. Aelodau o ddosbarth Ysgol Sul Mair Nutting a wnaeth y faner, ac yr oedd yn destun edmygedd i sawl aelod o'r gynulleidfa.

Gyda'r nos cynhaliwyd y Gymanfa o dan arweiniad Mr Alan Wynne Jones, Bow Street, a'r Llywydd oedd Dr Geraint Evans, Garnwen.

MERCHED Y WAWR



Aelodau'r gangen a ddaeth yn ail trwy Geredigion yn yr Wyl Fai a gynhaliwyd yn Llambled yn ddiweddar.

Rhoddodd y Llywydd, Falyri Jenkins, fraslun o weithgareddau'r gangen yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a daeth yn amlwg fod y gangen wedi bod yn brysur dros ben yn codi arian, yn mynd ar ymweliadau, yn mynychu dosbarthiadau ioga ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Diolchodd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y digwyddiadau ac i'r aelodau am eu cefnogaeth yn y cyfarfodydd. Etholwyd chwe aelod newydd ar y pwyllgor a diolchwyd i Jennifer Evans a Helen Jones am gyfri'r pleidleisiau.

Yna croesawyd Lucy Huws, merch yn enedigol o Benrhyn-coch atom. Mae Lucy wedi dysgu'r iaith Mandarin ac wedi treulio cyfnodau yn Tseina. Mewn ffordd gynnes a difyr iawn disgrifiodd ei bywyd a'i phrofiadau yno.

I gloi'r noson cafwyd swper wedi ei baratoi gan rai o aelodau'r pwyllgor. Dymunodd y Llywydd yn dda i'r swyddogion a'r pwyllgor newydd.

Byddwn yn teithio i Llambled i gartref y cogydd Gareth Richards ar Fehefin 18fed i gael arddangosfa a swper yn ei gwmi.

CYMORTH CRISTNOGOL TAL-Y-BONT

Cafwyd wythnos lwyddiannus o gasglu arian tuag at Gymorth Cristnogol yn ardal Tal-y-bont. Y swm a gasglwyd eleni yw £964.23. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r casglwyr am fynd o gwmpas o dŷ i dŷ ac i bawb a gyfrannodd at yr achos pwysig hwn.

Dyma fanylion am y casglu:

Penlon a'r Ffald (Lynn Hammonds a Delyth Huws)	£133.01
Maesyderi (Helen Jones a Lyn Ebenezer)	£ 70.44
Pensarn/Cwmceulan (Gwilym Jenkins)	£ 79.34
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£ 49.30
Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos)	£151.49
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£109.05
Ardal Bont-goch (Geraint Evans)	£ 96.50
Pentref Tal-y-bont (Gwen Hughes a Glenys Edwards)	£143.73
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones)	£131.37

Janet Jones, Trefnydd

CYFRIFIAD 1891 A'R DIWYDIANT GWLÂN

Efallai eich bod yn cofio i ddisgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ennill gwobr genedlaethol rai misoedd yn ôl am eu hastudiaeth o fywyd a gwaith yn ardal Tal-y-bont. Ffynhonnell bennaf y gwaith ymchwil oedd y wybodaeth a godwyd o Gyfrifiad 1891. Yr oedd y plant wedi edrych ar nifer o wahanol agweddau ar yr ardal leol, yn cynnwys cyfri faint o bobl oedd yn gweithio yn y ffatrioedd gwlan, yn y mwyngloddiau ac mewn ffermio. Ond wrth gwblhau'r gwaith gwreiddiol sylweddolwyd mai dim ond gwybodaeth am ran o bentref Tal-y-bont a gafodd y plant ei astudio. Ond fel gyda phob math o ymchwil y mae gwaith diweddar gan blant Blwyddyn 5 a 6 eleni wedi dangos rhai pethau newydd arwyddocaol.

Seiliwyd y gwaith gwreiddiol ar blwyf Cynnull Mawr yn unig, sef rhan ddeheuol y pentref a rhai o'r ffermydd ar y ffordd tuag at Rhydypennau. Eleni aeth y plant ati i gasglu'r un math o wybodaeth am blwyf Ceulanmaesmawr, sef rhan fwyaf gogleddol y pentref.

Wrth ddechrau casglu'r wybodaeth newydd daeth yn amlwg fod tipyn mwy o bobl yn gweithio yn y ffatrioedd gwlan a'r mwyngloddiau nag yr oeddem wedi meddwl ar y dechrau. Mae hynny wedi cadarnhau pwysigrwydd y diwydiannau hyn yn lleol. Gwelsom hefyd fod llawer iawn o bobl yn gysylltiedig â'r diwydiant gwlan mewn ffyrdd mwy anuniongyrchol. Er enghraifft, fe welwch o'r tabl isod bod nifer o deilwriaid, gwneuthurwyr dillad a phrentisiaid yn byw yn y pentref yn 1891.

Tabl i ddangos y bobl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant gwlan a brethyn ym mhentref Tal-y-bont. Cafwyd y wybodaeth o gyfrifiad 1891.

	Cynnull Mawr	Ceulanmaesmawr
Wool Weaver	9	1
Retired Wool Spinner	1	
Wool Spinner	5	4
Flannel Manufacturer	3	3
Woollen Manufacturer	1	
Flannel Weaver	1	2
Dressmaker	1	14
Dressmaker's Apprentice		3
Flannel Factory Worker		1
Assistant Dressmaker		1
Draper		1
Tailor & Draper		1
Retired Weaveress		1
Wool Weaveress		1
Assistant Weaver		1
Retired Draper		1
Wool Spinner's Apprentice		1
Tailor		2
	21	38


Tabl i ddangos y bobl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant mwyngloddio ym mhentref Tal-y-bont. Cafwyd y wybodaeth o gyfrifiad 1891.

	Cynnull Mawr	Ceulanmaesmawr
Lead Miner	1	29
Ore Dresser's Wife	1	
Labourer in Lead Mine	1	
	3	29

Roedd hi'n ddiddorol teimlo ein bod ni wedi gallu dod i adnabod rhai o'r cymeriadau oedd yn byw yn Nhal-y-bont yn 1891 ac yn gysylltiedig â'r diwydiant gwlan. Wrth edrych ar lyfr Hefin Llwyd, *Un Ennyd Fer*, sy'n gasgliad o ffotograffau gwerthfawr E.O. Jones, tynnwyd ein sylw at ddau lun yn arbennig.

Yr wybodaeth ar waelod y lluniau oedd "Jane Morgan, Ffatri Isaf yn nyddu gwlan c.1900" a "David Morgan, Ffatri'r Bont, wrth un o'r peiriannau c.1900"

O wneud ychydig o waith ditectif, gwelsom enwau'r ddau ar y Cyfrifiad. Rydym bellach yn gwybod bod Jane Morgan yn gwehyddu yn y Ffatri. Roedd hi'n byw ym mhlwyf Cynnull Mawr mewn tŷ ar ei phen ei hun. Cafodd ei geni yn 1840 yn Nhal-y-bont a dim ond Cymraeg yr oedd hi'n siarad. Roedd hi'n 51 oed yn 1891 a thua 60 oed pan dynnwyd y llun.



Roedd David Thomas Morgan yn gweithio yn Ffatri'r Bont. Yn 1891 roedd yn 11 oed ac yn byw gyda'i fam Mary, ei chwaer Sarah a'i frawd Griffith. Roedd ei fam yn gweithio yn un o ffatrioedd gwlan y pentref a'r tri phlentyn yn "scholars" yn yr ysgol. Cafodd Mary Morgan ei geni yn Llanfihangel, Sarah ei geni yn Llancynfelyn a'r ddau frawd eu geni yn Nhal-y-bont. Roedden nhw'n byw ym mhlwyf Cynnull Mawr erbyn 1891. Roedd y teulu i gyd yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg, rhywbeth digon anghyffredin yn Nhal-y-bont yn ôl yr wybodaeth o'r Cyfrifiad. Roedd David tua 20 oed yn y llun.

Wrth wneud y gwaith yn yr ysgol rydym yn gobeithio ein bod yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r ardal leol a'r hynodion sydd wedi gwneud Tal-y-bont yn bentref pwysig yng Ngogledd Ceredigion sy'n llawn o hanes a threftadaeth.

25 Mlynedd yn ôl - Mehefin 1982



Yn ystod y 25 mlynedd diwedd y 1950s, roedd y ffatrioedd gwlan yn parhau'n ddifodol yn y pentref.

Dathlu Jiwbili

Yn ystod y 25 mlynedd diwedd y 1950s, roedd y ffatrioedd gwlan yn parhau'n ddifodol yn y pentref. Yn ystod y 1980s, roedd y pentref yn parhau'n ddifodol yn y pentref. Yn ystod y 1980s, roedd y pentref yn parhau'n ddifodol yn y pentref. Yn ystod y 1980s, roedd y pentref yn parhau'n ddifodol yn y pentref.

DIWRNOD CENEDLAETHOL Y DELYN



Cynhelir Symposiwm Telyn Ewrop bob tair blynedd mewn dinasoedd o amgylch Ewrop. Yn ystod y 21 mlynedd ers ei sefydlu, dyma'r tro cyntaf i'r Symposiwm ymweld â'r Deyrnas Unedig, a dewiswyd Caerdydd fel y ddinas i'w gynnal ar Orffennaf 22ain - 27ain eleni. Wythnos o ddatllu telynau, telynorion a cherddoriaeth y delyn yw'r Symposiwm, gydag amrywiaeth o gyngherddau, perfformiadau, dosbarthiadau meistri a darlithoedd, ynghyd ag arddangosfeydd delynau. Mae'n denu perfformwyr byd eang o holl ddisgyblaethau'r delyn yn cynnwys Jazz, Lladin- Americanaidd, Celtaidd a thraddodiadol.

Ffurfiwyd *Arpa Viva Cymru* i gydlynu gweithgareddau amrywiol y Symposiwm. I hyrwyddo gŵyl *Arpa Viva Cymru*, cynhaliwyd "DIWRNOD CENEDLAETHOL Y DELYN" ar Ebrill 29ain. Trefnwyd "Datganiad Telynau Celtaidd" yn Neuadd Goffa, Penparcau o dan gyfarwyddyd Mrs Siân Ifan Price a Mrs Delyth Evans, a chafodd y gynulleidfa ei swyno gan berfformiadau hyfryd y telynorion ifanc. Roedd hwn yn gyfle gwych i delynorion, rhieni, ffrindiau a charedigion y delyn i ddod at ei gilydd yn gyfamserol ar draws y wlad i fwynhau'r offeryn hyfryd hwn.

Cymerwyd rhan gan nifer o ddisgyblion sy'n mynychu gwersi trwy Wasanaeth Cerdd Ceredigion. Gwelir Medi Fflur Evans (canol), o Ysgol Talybont, sy'n aelod o *Ysgol y Delyn Bro Ystwyth*. Perfformiodd Medi unawd ar y delyn ynghyd â chwarae o fewn ensembl.

Gwelir hefyd ei thiwtoriaid sef Mrs Siân Ifan Price, Telynores Bro Ystwyth (Athrawes Deithiol y Delyn, Sir Ceredigion) a Mrs Delyth Evans, Telynores Mynach.

The Contender



Bu Sam Ebenezer yn aelod o gast y ddrama gerdd *The Contender* a lwyfannwyd yn Theatr y Celfyddydau, Aberystwyth, fis Mai. Mal Pope a gyfansoddodd y ddrama a seiliwyd ar fywyd y bocsiwr pwysau trwm o'r Rhondda, Tommy Farr. Gwelir Sam yn y llun yng nghwmni'r actor Mike Doyle a chwaraeai ran Tommy Farr.

ANGEN
Amffeilaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy Theol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Gwasanaeth Argraffu
DYLUNIO
ARGRAFFU PEDWAR LLIW
RHWYMO PERFFAITH



yLolfa

ffoniwch 01970 832 304
e-bostiwch pris@yloffa.com

S. F. BYRNE

Adolladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832048
Ffôn: 017426 20009

Gwasanaethau gwybodaeth a masnach

M & D PLUMBERS

Printing & Publishing



Plumbing & Heating
Drainage & Repairs
Water & Gas



Contractors & Engineers
1991-2000 & 2001-2002

Chwaraeon

CRICED

Cafwyd canlyniadau boddhaol gan dîm criced Tal-y-bont yn ystod wythnosau cyntaf y tymor. Er i'r tîm gollu i Aberystwyth yn rownd derfynol y gwpan (gêm a ohiriwyd o'r tymor diwethaf), llwyddwyd i ennill sawl gêm gynghrair. Y bowlwyr sydd wedi serennu hyd yn hyn. Cipiodd Owen Roberts saith wiced yn y fuddugoliaeth yn erbyn Llanymddyfri ac, nid am y tro cyntaf yn hanes y clwb, rhoddodd Simon Lloyd-Williams wers mewn bowllo deheuig wrth gymryd chwe wiced am 23 rhediad yn erbyn Tregaron. Roedd Tregaron i gyd allan am 57 a llwyddwyd i ennill y gêm unochrog hon o wyth wiced.

Ddydd Sadwrn diwethaf, Tal-y-bont a gafodd y gorau o'r gêm yn erbyn Rhaeadr. Sgoriodd bechgyn Rhaeadr 174 yn eu batiad ond llwyddodd Tal-y-bont i gyrraedd y nod, gyda'r capten Jim Vaughan yn arwain y ffordd gyda batiad awdurdodol o 66 rhediad.

GEMAU'R GYMANWLAD

Pob lwc i Dr Harry Toland, Morawel, Eglwysfach, a fydd yn cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad sydd i'w cynnal yn Nhoronto, Canada, ym mis Gorffennaf. Cleddyfaeth yw camp Dr Toland ac ef fydd cydgapten a chyd-reolwr tîm cleddyfaeth Cymru. Gobeithio y cawn weld y ddraig goch yn chwifio yng Nghymru a bwriedir cynnwys adroddiad llawn ar gampau Dr. Toland yn y rhifyn nesaf o'r papur.

CPD Ieuentid Tal-y-bont

Daeth tymor pêl-droed 2006-7 i'w derfyn ac unwaith yn rhagor cafodd y bechgyn a'r merched dymor difyr iawn. Yn anffodus ni ail-adroddwyd llwyddiant y flwyddyn gynt pan enillodd dau dîm gystadlaethau cwpan ond dangoswyd nerth y clwb eleni wrth i chwech o'r naw tîm gyrraedd rowndiau cyn-derfynol. Dangosodd y timau uwchradd addewid, gyda Ben Jackson yn cael ei ddyfarnu'n chwaraewr y flwyddyn yn yr adran dan 14 mlwydd oed a Max Jones

ymhlith y tri gorau yn yr adran dan 12. Hefyd roedd tri chwaraewr, Hefin Hopkins, Ryan Thomas a Harri James, yn aelodau o'r tîm a fu'n cynrychioli dalgylch Aberystwyth a enillodd dwrnamaint i gynghreiriau Canolbarth Cymru dan 12 oed.

Un o nodau'r clwb yw datblygu chwaraewyr a fydd mewn dwy neu dair blynedd yn medru cynrychioli tîm oedolion Tal-y-bont. Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y clwb ieuentid a chlwb yr oedolion i geisio uno'r ddau er mwyn cryfhau pêl-droed yn y dalgylch. Yn ogystal â'r chwaraewyr a enwyd uchod, rhaid llongyfarch Richard Jenkins a oedd yn aelod o dîm Aberystwyth dan 11 oed a gipiodd gwpan Pwllheli y penwythnos diwethaf, a hefyd Richard Bailey, Alwenna Jenkins, Ellie M Jones, Nia Jones, Georgia Jackson a Gwenno Evans a fu'n cynrychioli Aberystwyth ar wahanol adegau yn ystod y tymor.

Yn ddiweddar cyflwynwyd y gwobrau i chwaraewyr y flwyddyn o dimau'r ysgolion cynradd. Yr enillwyr oedd:

Tarannau: Morgan Langley

Teriys: Josh Rolt a Thomas Chapman (rhannu)

Merched Tal-y-bont: Carys Watson-Lewis

Teirw: Ryan Hughes a Harri Thomas (rhannu)

Tal-y-bont dan 11: Richard Jenkins

Llongyfarchiadau iddynt ac i bawb a gynrychiolodd y clwb. Chwaraeodd dros 90 o blant i dimau Tal-y-bont yn ystod y tymor sydd yn dipyn o gamp i'r pentref. Trefnir y gwobrwyon ar gyfer chwaraewyr o'r timau uwchradd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Hoffwn ddiolch i'r holl hyfforddwy a fu'n cynorthwyo yn ystod y tymor, sef Karen Evans, Dick Squires, Ceri Jones, Alun Thomas, Simon Campion, Sian Ffrancon, Mark Ebenezer, Wendy Jones a Keith Hughes. Heb eu cyfraniad anferthol, ni fyddai modd i ni gynnal cymaint o dimau. Rhaid diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth ar



Rheolwyr timau Mini Minors Tal-y-bont yn cyflwyno gwobrau i'r unigolion a ddangosodd y mwyaf o ymroddiad a gwelliant yn ystod y tymor.

foreau Sadwrn ac wrth godi arian – gyda'r uchafbwynt pan ddaeth 60 a mwy o rieni ynghyd i roi taflenni mewn amlenni yn y Lolfa am dros bedair awr ym mis Tachwedd.

Diolch yn fawr ac fe welwn i chi'r tymor nesaf

Brian Richards

[Bydd pob un sy'n gysylltiedig â'r clwb yn awyddus i *Bapur Pawb* ddiolch i Brian am ei holl waith dros y tymor. Ef sy'n dal yr ymerodraeth at ei gilydd a

gwyddom y gwerthfawrogrir ei gyfraniad gan bawb. GOL.]

GOLFFWYR IFANC LLEOL

Bu Ben Jones, Nia Jones a Richard Bailey yn cystadlu ar gwrs golff Penrhos, Llanrhystud ar 28 Mai. Daeth Ben yn ail yn ei gystadleuaeth ef a llwyddodd Nia i ddod yn gyntaf. Bydd Nia nawr yn cystadlu yn y rownd nesaf a gynhelir ar gwrs bro Morgannwg ym mis Gorffennaf. Pob lwc i ti Nia.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsösts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsösts
- Tracio
- Brëcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

